

ENWI A RHIFO STRYDOEDD (SNN)

Arweiniad a Gweithdrefn

CYNNWYS

	Tud.
1. Cyflwyniad	3
2. Ceisiadau Enwi a Rhifo Strydoedd (SNN)	3
3. Gweithdrefn	5
4. Y Rhestr Tir ac Eiddo Lleol (LLPG) a'r Rhestr Tir ac Eiddo Genedlaethol (NLPG)	5
5. Enwi Strydoedd	6
6. Confensiynau Enwi Strydoedd ac Adeiladau	7
7. Ailenwi ac Ailrifo Strydoedd neu Adeiladau	7
8. Platiau Enwau Strydoedd	8
9. Gwybodaeth a Chyngor Pellach	8

1. Cyflwyniad

1.1 Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am Enwi a Rhifo Strydoedd (SNN). Mae'r pwerau deddfwriaethol sy'n galluogi Dinas a Sir Abertawe i gyflawni'r gofyniad hwn wedi'u cynnwys o dan adrannau 17 i 19 Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925 ac o dan adran 8 Deddf Gorllewin Morgannwg 1987. Mae Deddf 1987 yn diwygio adrannau 64 a 65 Deddf Cymalau Gwella Trefi 1847.

1.2 Mae enwi strydoedd a rhifo adeiladau yn hanfodol i'r broses o greu cyfeiriadau. Yr amcan yw creu'r cyfeiriadau diamwys sy'n angenrheidiol ar gyfer diogelwch cyhoeddus.

1.3 Mae'n gamdybiaeth cyffredin mai'r Post Brenhinol sy'n gyfrifol am greu cyfeiriadau. Mewn gwirionedd, caiff cyfeiriadau eu creu o ganlyniad uniongyrchol i swyddogaeth SNN statudol pob awdurdod lleol yn y DU.

1.4 Nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol hysbysu'r Post Brenhinol na sefydliadau amrywiol am enwau stryd neu rifau adeiladau newydd. Fodd bynnag, cydnabyddir y defnyddir system codau post y Post Brenhinol a'i gronfa ddata gyfeiriadau fewnol yn helaeth gan fasnach a diwydiant. Oherwydd hyn, bydd yr awdurdod yn cysylltu â'r Post Brenhinol i sefydlu codau post newydd ac i wneud ceisiadau i gyfeiriadau adeiladau newydd gael eu hychwanegu at gofrestr y Post Brenhinol.

1.5 Mae'r awdurdod hwn a nifer o awdurdodau lleol eraill wedi cyflwyno graddfa o ffioedd i gyflawni gwasanaethau enwi a rhifo strydoedd. Cyfeiriwch at adran 9 am fanylion.

1.6 Mae'r ffioedd am gynnal gwasanaethau SNN yn cynnwys y costau am y gwaith ychwanegol a gyflawnir yn ôl disgrisiwn yr awdurdod. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda'r Post Brenhinol, hysbysu cyrff a sefydliadau amrywiol ac am gadarnhau cyfeiriadau mewn fformat priodol. Mae'r taliadau hefyd yn talu am 'lunio' lluniadau a pharatoi atodlenni rhifo i'w defnyddio wrth gadarnhau cyfeiriadau newydd.

2. Ceisiadau Enwi a Rhifo Strydoedd (SNN).

2.1 Gellir cyflwyno ceisiadau drwy ddefnyddio ffurflen gais SNN yr awdurdod neu drwy gyflwyno cais ysgrifenedig neu ar e-bost. Mae ffurflenni cais ar gael i'w lawrlwytho neu gellir eu cwblhau ar-lein ar wefan yr awdurdod <https://www.abertawe.gov.uk/enwiarhifostrydoedd>. Fel arall, gellir gwneud cais am ffurflenni drwy gysylltu â'r swyddog enwi a rhifo strydoedd. Mae manylion cyswllt wedi'u rhestru ar ddiwedd y ddogfen hon.

Sylwer: Rhaid derbyn y ffi briodol cyn prosesu'r ceisiadau!

2.2 Rhaid cyflwyno ceisiadau SNN pan mae angen cyfeiriadau newydd neu pan mae angen addasu cyfeiriadau adeiladau sydd eisoes yn bodoli. Rhaid cyflwyno ceisiadau hefyd os bydd angen enw heol neu enwau newydd arnynt. Er enghraifft:

1. Ar safleoedd datblygu mawr lle caiff ffyrdd ac adeiladau newydd eu hadeiladu. Mae hyn yn cynnwys adeiladau preswyl, masnachol a diwydiannol.
2. Lle caiff adeiladau sy'n bodoli eisoes eu haddasu ac mae angen cyfeiriadau newydd arnynt. Mae hyn yn cynnwys adeiladau preswyl, masnachol a diwydiannol.
3. Pan mae angen cyfeiriadau i adeiladau newydd unigol.
4. Lle mae cartrefi'n cael eu cyfuno neu eu gwahanu h.y. un cartref yn cael ei rannu'n fflatiau neu ddau gartref yn cael eu cyfuno.

5. Ailenwi cartref sy'n bodoli eisoes. Mae hyn ond yn berthnasol lle mae'r cartref yn cael ei adnabod drwy ei enw'n unig yn hytrach na rhif. Gweler adran 6 - pwyntiau 13 i 15.
6. Gwneir cais i ailenwi stryd. Gweler adran 7.

Sylwer – gellir defnyddio'r ffurflen hefyd i gadarnhau cyfeiriadau cartrefi. Rhaid talu ffioedd.

2.3 Dylid gwneud ceisiadau am rifau newydd i adeiladau dim ond ar ôl dechrau'r gwaith ar y safle a phan fydd y gwaith adeiladu'n mynd rhagddo'n dda. Anogir datblygwyr i gyflwyno cais am gyfeiriadau o leiaf tri mis cyn dyddiad neu ddyddiadau cwblhau disgwylidig adeilad neu adeiladau. Rhaid darparu'r dyddiad neu'r dyddiadau cwblhau disgwylidig.

2.4 Cynghorir datblygwyr safleoedd mawr i gynnal gwaith fesul cam ac i ystyried rhediad disgwylidig rhifau'r adeiladau fel nad yw trefn rhifau arfaethedig adeiladau'n mynd ar chwâl os bydd newidiadau i'r cynllun.

2.5 Bydd yr awdurdod yn ystyried enwi a rhifo adeiladau lle nad oes gwaith wedi dechrau eto, dim ond pan fydd y datblygwr yn siŵr y caiff y cartrefi eu hadeiladu a lle mae adeiladau cyfagos ar yr un safle datblygu wedi cael eu cwblhau neu'n cael eu hadeiladu o hyd.

2.6 Dylai datblygwyr fod yn ymwybodol y bydd ffioedd i'w talu os bydd newidiadau i'r cynllun yn peri i'r awdurdod orfod ailenwi neu ailrifo. Bydd y costau hyn ond yn berthnasol lle bydd hysbysiad eisoes wedi'i gyflwyno i ddatblygwr ac os effeithir ar hysbysiad(au) blaenorol.

2.7 Rhaid i ddatblygwyr hysbysu'r Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd cyn gynted â phosib am unrhyw newidiadau i gynllun y safle a fydd yn effeithio ar enwi a/neu rifo'r strydoedd.

2.8 Hysbysir datblygwyr hefyd y bydd rhaid talu costau am waith ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r gofyniad i hysbysu'r Post Brenhinol a chyrrff amrywiol eraill ynghylch dileu cyfeiriadau os na chaiff cartrefi eu hadeiladu. Fodd bynnag, mae hyn ond yn berthnasol i amgylchiadau lle mae cyfeiriadau eisoes wedi cael eu cadarnhau i ddatblygwr gan y cyngor mewn hysbysiad(au) blaenorol.

Felly mae'n bwysig y caiff ceisiadau enwi a rhifo eu gwneud dim ond pan fydd adeiladau bron yn sicr o gael eu hadeiladu!

2.9 Dylai'r wybodaeth ganlynol gael ei chynnwys gyda cheisiadau i enwi a rhifo cartrefi newydd:

1. Cynllun lleoliad o'r safle (fel arfer 1:1250 neu 1:2500)
2. Cynllun bloc neu gynlluniau sy'n nodi rhifau plotiau ac amlinelliad o bob adeilad newydd. Rhaid i gynlluniau llawr hefyd gael eu cynnwys yn ôl yr angen h.y. ar gyfer blociau o fflatiau.
3. Caiff yr holl rifau eiddo a ddangosir ar luniadau a gyflwynir eu hystyried yn rhifau plot nes i'r awdurdod gadarnhau'r enwau a'r rhifau.
4. Rhaid nodi'r dyddiad neu ddyddiadau cwblhau disgwylidig yr adeiladau.

3. Gweithdrefn.

3.1 Wedi i'r ceisiadau gael eu derbyn, cânt eu blaenoriaethau ar unwaith yn ôl y dyddiadau cwblhau cyntaf disgwylidig.

3.2 Bydd datblygiadau lle mae'n rhaid enwi ffyrdd yn cael eu blaenoriaethu hefyd, i gydnabod y prosesau i'w dilyn a'r amser angenrheidiol cyn y gellir cytuno ar enwau ffyrdd.

3.3 Caiff derbynioldeb enwau ffyrdd newydd a gynigir gan ddatblygwyr eu gwirio yn ôl y meini prawf a amlinellir yn Adran 5. Os na fydd y meini prawf wedi'u bodloni, gofynnir i'r datblygwyr gyflwyno enwau amgen.

Sylwer: Rhaid i ddatblygwyr beidio â gofyn i ysgolion na chynnal cystadlaethau ar gyfer enwau ffyrdd newydd. Rhaid ymgynghori â'r awdurdod yn gyntaf.

3.4 Os bydd datblygwyr wedi gofyn i'r awdurdod benderfynu ar enwau ffyrdd newydd, rhaid cynnal ymchwil yn gyntaf. Gellir cysylltu ag aelodau'r ward lleol neu grwpiau hanesyddol am eu barn a'u mewnbwn. Gallai'r amser a gymerir beri oedi.

3.5 Wedi i enw ffordd priodol gael ei nodi, rhaid cyflwyno'r cynnig am enw ffordd newydd i aelodau'r ward lleol i'w gymeradwyo. Os na fydd gwrthwynebiad, ar ôl cyfnod ymgynghori o dair wythnos, ystyrir y cytunwyd ar enw'r ffordd newydd.

3.6 Wedi i enw'r ffordd newydd gael ei bennu, dylai rhifau'r adeiladau newydd gael eu rhoi ar waith gan ddilyn yr egwyddorion a ddisgrifir yn adran 6. Hysbysir y Post Brenhinol am holl rifau newydd adeiladau gan yr awdurdod, a bydd yn cyflwyno'r codau post cywir ar gyfer yr adeiladau hyn.

3.7 Caiff datblygwyr, cyrff a sefydliadau amrywiol eu hysbysu am y cyfeiriadau newydd. Cyflenwir cynlluniau safleoedd ac atodlenni rhifo yn ôl yr angen.

4. Y Rhestr Tir ac Eiddo Lleol (LLPG) a'r Rhestr Tir ac Eiddo Genedlaethol (NLPG).

4.1 Cronfa ddata o wybodaeth cyfeiriadau yw'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol (LLPG) a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Mae gan bob awdurdod lleol ofyniad rheolaethol i gynnal y rhestr leol hon. Mae pob LLPG yn rhan o gronfa ddata genedlaethol, y Rhestr Tir ac Eiddo Cenedlaethol (NLPG) y mae'n ei bwydo.

4.2 Cofnodir yr holl wybodaeth newydd am gartrefi a chyfeiriadau yn uniongyrchol i'r LLPG ac yna i'r NLPG.

4.3 Mae'n bosib y bydd modd cofnodi gwybodaeth SNN yn y LLPG yn y dyfodol, cyn i wybodaeth côd post gael ei ddarparu gan y Post Brenhinol. Mae'n bosib y cyflwynir mecanwaith er mwyn i'r Post Brenhinol ychwanegu data côd post yn nes ymlaen drwy'r NLPG. Gallai hyn olygu y gall gwybodaeth am enwi a rhifo strydoedd newydd yn y dyfodol gael ei darparu gan yr awdurdod i ddatblygwyr heb fanylion tref bost a chod post. Os felly, gallai fod gofyn i ddatblygwyr yn eu tro adalw gwybodaeth o'r fath yn uniongyrchol o'r NLPG.

4.5 Bydd yr awdurdod yn penderfynu ar yr adeg honno a ydynt am barhau i ddarparu gwybodaeth tref bostio a chod post i ddatblygwyr, gan dybio wrth gwrs bod hawl gan yr awdurdodau lleol i wneud hynny.

4.6 Fel y soniwyd o'r blaen, nid oes gofyn i'r awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth côd post wrth gadarnhau enwau a rhifau strydoedd newydd. Dylai datblygwyr neu aelodau'r cyhoedd sydd ag unrhyw ymholiad am godau post holi'r Post Brenhinol drwy ffonio 08456 011110 neu ymweld â gwefan y Post Brenhinol yn www.royalmail.com.

5. Enwi Strydoedd.

5.1 Rhaid creu ffyrdd newydd ar rai safleoedd datblygu. Rhaid cadw at weithdrefn enwi ffyrdd ffurfiol cyn gwneud unrhyw enw ffordd yn swyddogol.

5.2 Anogir datblygwyr i gyflwyno cynigion enwi heolydd. Rhaid bodloni'r meini prawf a nodir isod: Neu, gall datblygwyr wneud cais bod yr awdurdod yn dewis enw(au) newydd y ffyrdd iddynt. Bydd penderfyniad yr awdurdod yn derfynol.

1. Dylai enwau strydoedd newydd, lle bynnag y bo modd, fod yn berthnasol i'r ardal o dan sylw a bod yn seiliedig ar ddiwyddiadau hanesyddol, nodweddion naturiol neu dirnodau. Gellir ystyried enwau sy'n seiliedig ar bobl enwog (sydd wedi marw) â chysylltiad â'r ardal hefyd. Efallai y bydd angen caniatâd gan aelodau teulu neu weinyddwyr ystad.
2. Gall enwau strydoedd fod naill ai'n Gymraeg neu'n Saesneg (NID Y DDAU - gweler pwyntiau 3 a 4 isod). Caiff y cydbwysedd rhwng enwau Cymraeg a Saesneg newydd ei fonitro a'i gynnal gan yr awdurdod.
3. Ni ddefnyddir arwyddion enwau strydoedd dwyieithog yn ardal yr awdurdod hwn, oni bai bod eu hangen yn lle arwydd dwyieithog oedd eisoes yn bodoli).
4. Dylid osgoi cyfuniadau o Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill.
5. Dylai enwau fod yn hawdd eu hynganu a'u sillafu.
6. Bydd enwau yr ystyrir eu bod yn anwedus neu'n hiliol yn annerbyniol.
7. Ni ddylai enwau wrthdaro ag enwau ffyrdd sydd eisoes yn bodoli a ddefnyddir yn yr awdurdod.
8. Dylid osgoi enwau sy'n debyg yn ffonetig h.y. Birch Road a Church Road.
9. Nid yw enwau gyda gwahanol oldodiaid yn dderbyniol h.y. Dylan Court, Dylan Drive etc.
10. Os bydd ffyrdd yn cael eu gwahanu'n barhaol oherwydd datblygiad neu ddiwyddiadau, yna dylid ailenwi un rhan o'r ffordd yn gyfan gwbl. Nid yw defnyddio Gogledd, De, Dwyrain neu Gorllewin (fel yn Heol Heatherton - Gogledd neu Heol Heatherton - De) yn dderbyniol fel arfer, oni bai bod y ffordd yn hir ac wedi'i dwyrannu gan gyffordd fawr.
11. Dylid osgoi enwau strydoedd yn dechrau gydag 'Yr'.
12. Dylid osgoi enwi heolydd isradd, megis rhes o adeiladau ar ffordd wedi'i henwi'n barod, ar ffurf 'Teras/Parêd!'
13. Pan gaiff strydoedd sy'n bodoli eisoes eu hehangu, yna dylid parhau i ddefnyddio enw presennol y ffordd lle bynnag y bo modd.

5.3 Dylai timoedd gwerthiannau a marchnata egluro i ddarpar brynwyr y gall yr enwau marchnata a ddefnyddir gan ddatblygwyr fod yn wahanol i enw terfynol y stryd, ac felly efallai na fyddant yn rhan o gyfeiriad terfynol adeilad. Dylai deunydd darllen gwerthiannau a marchnata nodi hyn.

5.4 Ar ôl cytuno ar enwau ffyrdd newydd ar gynlluniau datblygu, bydd datblygwyr yn gyfrifol am godi platiau enwau strydoedd. Gweler adran 8.

6. Confensiynau Enwi Strydoedd ac Adeiladau.

6.1 Mae rhifo adeiladau yn rhesymegol yn bwysig i gynorthwyo gwasanaethau argyfwng rhag ofn y bydd angen cymorth. Mae'r confensiynau rhifo canlynol hefyd wedi'u cydnabod yn gyffredinol gan gwmnïau cludiant, a defnyddir hwy gan yr awdurdod hwn:

1. Bydd yr awdurdod yn ymdrechu i rifo'r holl ddatblygiadau eiddo newydd. Mae eithriadau'n bodoli os nad oes system rifo'n cael ei defnyddio mewn strydoedd sydd eisoes yn bodoli.
2. Mae prif ffyrdd wedi'u rhifo fel bod odrifau ar yr ochr chwith ac eilrifau ar yr ochr dde wrth deithio i ffwrdd o ganol tref, oni bai bod system rifo sefydledig yn wahanol.
3. Mae heolydd ochr wedi'u rhifo mewn trefn esgynnol o'r ffordd bwysicaf y mae'n arwain oddi arni.
4. Rhifau dilyniannol clocwedd yw'r hoff ddewis ar gyfer cul-de-sac, oni bai y rhagwelir datblygiad pellach. Yna caiff cynllun odrifau ac eilrifau ei ddefnyddio.
5. Dylid defnyddio pob rhif. Gwrthodir ceisiadau i hepgor rhifau (h.y. rhif 13).
6. Ni ddylid rhifo garejys preifat ac adeiladau tebyg.
7. Caiff adeiladau eu rhifo yn ôl y stryd lle mae'r brif fynedfa. Mae hyn yn cynnwys adeiladau cornel. Ni chaniateir dylanwadu ar y rhifo er mwyn sicrhau cyfeiriadau dymunol neu i osgoi cyfeiriadau annymunol.
8. Os bydd gan adeilad fynedfeydd ar fwy nag un stryd, defnyddir y fynedfa a ddefnyddir fel prif fynedfa er mwyn enwi a rhifo strydoedd.
9. Dylid enwi adeiladau sy'n cynnwys nifer o gartrefi, e.e. blociau o fflatiau, lle bo'n ymarferol, a rhifo'r prif adeilad. Dylid rhifo cartrefi mewnol unigol y tu mewn iddo ar wahân.
10. Dylai rhifau mewnol cartrefi o fewn adeiladau ddechrau ar y pwynt isaf, gyda'r rhif 1 ar gyfer yr eiddo cyntaf ar y chwith wrth gyrraedd y llawr isaf. Dylai'r rhifau barhau clocwedd ac i fyny.
11. Bydd datblygiad mewnlenwi ar strydoedd sydd eisoes yn bodoli yn cynnwys olddodiad i rif yr adeilad (h.y. 21A) os nad oes rhif olynol ar gael yn y cynllun rhifo cyfredol.
12. Mae gan bob israniad eiddo preswyl rif yn hytrach na disgrifiad neu lythyren, h.y. Defnyddir Fflat 1 yn hytrach na 'Fflat Llawr Cyntaf' neu 'Fflat A'.
13. Caniateir eiddo ag enw yn unig os nad oes system rhifo stryd wedi'i sefydlu ar stryd. Ni chaniateir dyblygu enw adeilad ar stryd neu yn yr ardaloedd o amgylch mewn lleoliadau gwledig.
14. Caniateir newid i enw adeilad yn dilyn cymeradwyaeth yr awdurdod yn unig. Rhaid dilyn gweithdrefn ffurfiol i sicrhau nad oes enw'n cael ei ddyblygu na'n gwrthdaro ag eraill. Bydd yr awdurdod yn darparu prawf o ailenwi ac yn hysbysu cyrff amrywiol.
15. Ni all eiddo wedi'i rifo ar stryd sydd eisoes â system rifo sefydledig newid i enw yn unig. Gellir ychwanegu enw oni bai bod yr enw'n gwrthdaro gydag adeiladau eraill ar y stryd neu gydag eiddo cyfagos sydd eisoes yn bodoli mewn lleoliadau gwledig. Nid oes rhaid cynnal gweithdrefn ffurfiol yn yr achos hwn. Fodd bynnag, rhaid dyfynnu a defnyddio rhif yr adeilad ym mhob gohebiaeth.

7. Ailenwi ac Ailrifo Strydoedd neu Adeiladau.

7.1 Ar adegau prin, gall fod rhaid enwi/ailenwi a/neu rifo/ailrifo strydoedd. Neu, efallai bydd yn angenrheidiol rhifo/ailrifo adeiladau unigol o fewn adeilad. Dyma'r sefyllfaoedd lle gall hyn ddigwydd:

1. Nid oes enw hysbys gan stryd.
2. Mae dryswch wedi codi ynghylch yr enw cywir i'w ddefnyddio ar gyfer stryd.
3. Mae cyfuniad o adeiladau wedi'u henwi a'u rhifo ar stryd yn gofyn i rifau ffurfiol gael eu cyflwyno er mwyn rheoleiddio cyfeiriadau.

4. Mae eiddo mewnlenni wedi peri i'r rhifau fynd ar chwâl gan eu gwneud yn afresymegol.
5. Mae rhifau cartrefi o fewn adeilad yn afresymegol ac yn peri dryswch.
6. Gall preswylwyr wneud cais i ailenwi stryd. Bydd ffioedd i'w talu os bydd yn rhaid ailenwi.

7.2 Hysbysir preswylwyr a pherchnogion eiddo ac ymgynghorir â hwy os bydd unrhyw ailenwi a/neu ailrifo yn digwydd.

7.3 Bydd rhaid i fwyafrif o ddau draean o leiaf o breswylwyr a pherchnogion gytuno cyn i unrhyw gynigion ailenwi gael eu hystyried. Bydd penderfyniad yr awdurdod yn derfynol.

7.4 Hysbysir perchnogion eiddo a phreswylwyr yn ysgrifenedig am unrhyw newidiadau a wneir. Bydd yr awdurdod yn hysbysu'r Post Brenhinol, gwasanaethau argyfwng a chyrrff a sefydliadau amrywiol am unrhyw newidiadau a geir.

8. Platiau Enwau Strydoedd.

8.1 Rhaid i ddatblygwyr godi platiau enwau strydoedd cyn i unrhyw un fyw yn yr adeiladau.

8.2 Caiff manylion lleoliadau a manylion ar gyfer platiau enwau strydoedd eu trosglwyddo i ddatblygwyr pan gaiff hysbysiadau enwi a rhifo strydoedd eu cyhoeddi gan yr awdurdod.

8.3 Os bydd datblygwr yn methu â chodi platiau enwau a bod preswylwyr yn yr adeiladau, yna bydd yr awdurdod yn codi platiau enw. Bydd rhaid i ddatblygwyr dalu'r holl gostau.

8.4 Gall ddatblygwyr ofyn i'r awdurdod godi platiau enw angenrheidiol o fewn safleoedd datblygu. Er mwyn cyflawni hyn, dylai datblygwyr gysylltu â'r adran adeiladau o fewn priffyrdd i gael dyfynbris. Nodir manylion cyswllt isod:

Priffyrdd, Ystâd Ddiwydiannol Players, Clydach, Abertawe, SA6 5BJ.

Rhif ffôn: 0800 132081 neu 01792 843330, Ffacs: 01792 841600

neu e-bostiwch: highways@swansea.gov.uk

9. Gwybodaeth a Chyngor Pellach.

9.1 Mae manylion ffioedd darparu gwasanaethau enwi a rhifo strydoedd ar gael ar wefan yr awdurdod: <https://www.abertawe.gov.uk/enwiarhifostrydoedd> Darperir graddfa daliadau lawn wrth ymateb i geisiadau am ffurflenni cais. Fel arall, gellir holi'r Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd yr Awdurdod yn uniongyrchol. Mae'r manylion isod.

9.2 Am fwy o gyngor neu wybodaeth, cysylltwch â'r Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd:

E-bost: snn@abertawe.gov.uk